OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1218 (Cy.103)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*8 Mai 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(3) a (4) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), fel y'u cymhwysir mewn perthynas ag ysgolion annibynnol gan adran 124B(1)(**2**) o'r Ddeddf honno, ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**3**).

Wrth wneud y Gorchymyn hwn mae Gweinidogion Cymru wedi dilyn y weithdrefn a bennwyd yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003(**4**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009, a daw i rym ar 1 Mehefin 2009.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y grefydd berthnasol neu'r enwad crefyddol perthnasol" ("*the relevant religion or religious denomination*") yw'r grefydd neu'r enwad crefyddol y caiff addysg yn yr ysgol ei darparu neu'r ysgol ei rheoli yn unol â'i daliadau neu â'i ddaliadau (neu, yn ôl y digwydd, pob enwad crefyddol o'r fath).

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 69(1) gan baragraff 104(1) a (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Diwygiwyd adran 69(2) gan baragraff 104(1) a (3) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Mewnosodwyd adran 124B gan Reoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyflogi Athrawon mewn Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol) 2003 (O.S. 2003/2037).

(**3**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**4**) O.S. 2003/3233.

Dynodi ysgolion

3.—(1) Dynodir yr Ysgolion a restrir yng ngholofn (1) yn yr Atodlen yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Mewn perthynas ag ysgol a restrir yng ngholofn (1) yn yr Atodlen, pennir yng ngholofn (2) y grefydd berthnasol neu'r enwad crefyddol perthnasol i'r ysgol honno.

Jane E. Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Mai 2009